OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 Rhif 286 (Cy. 58)

2025 No. 286 (W. 58)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

LOCAL GOVERNMENT, WALES

Rheoliadau Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (Diwygiadau Canlyniadol) 2025

The Elections and Elected Bodies (Wales) Act 2024 (Consequential Amendments) Regulations 2025

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan adran 71 o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 ("Deddf 2024") sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn Neddf 2024, o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth ynddi, neu er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth ynddi.

Mae Deddf 2024 yn diddymu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ("y Panel") ac yn darparu i swyddogaethau a gyflawnwyd yn flaenorol gan y Panel gael eu cyflawni gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ("y Comisiwn").

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth o ganlyniad i adran 56 o Ddeddf 2024, sy'n diddymu'r Panel, ac adran 57 o Ddeddf 2024, sy'n gosod swyddogaethau a gyflawnwyd yn flaenorol gan y Panel ar y Comisiwn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations are made under section 71 of the Elections and Elected Bodies (Wales) Act 2024 ("the 2024 Act") which enables the Welsh Ministers to make provision for the purposes of, in consequence of, or for giving full effect to, any provision of the 2024 Act.

The 2024 Act abolishes the Independent Remuneration Panel for Wales ("the Panel") and provides for functions previously undertaken by the Panel to be undertaken by the Democracy and Boundary Commission Cymru ("the Commission").

These Regulations make consequential amendments to secondary legislation as a result of section 56 of the 2024 Act which abolishes the Panel, and section 57 of the 2024 Act which imposes functions previously undertaken by the Panel on the Commission.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2025 Rhif 286 (Cy. 58)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (Diwygiadau Canlyniadol) 2025

Gwnaed *6 Mawrth 2025*

Gosodwyd gerbron Senedd Cymru *7 Mawrth 2025*

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 71(1)(a) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024(**1**).

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (Diwygiadau Canlyniadol) 2025.

(2) Daw rheoliadau 1, 2, 3 a 4 i rym ar 1 Ebrill 2025.

(3) Daw rheoliadau 5 a 6 i rym ar 1 Ebrill 2026.

Gorchymyn Rhyddid Gwybodaeth (Awdurdodau Cyhoeddus Ychwanegol) 2010

2. Yn Rhan 1 (cofnodion a fewnosodir gydag effaith o 1 Hydref 2010) o'r Atodlen i Orchymyn Rhyddid Gwybodaeth (Awdurdodau Cyhoeddus Ychwanegol) 2010(**2**), hepgorer "The Independent Remuneration Panel for Wales".

(**1**) 2024 dsc 5.
(**2**) O.S. 2010/937, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

2025 No. 286 (W. 58)

LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Elections and Elected Bodies (Wales) Act 2024 (Consequential Amendments) Regulations 2025

Made *6 March 2025*

Laid before Senedd Cymru *7 March 2025*

Coming into force in accordance with regulation 1(2) and (3)

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by section 71(1)(a) of the Elections and Elected Bodies (Wales) Act 2024(**1**).

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Elections and Elected Bodies (Wales) Act 2024 (Consequential Amendments) Regulations 2025.

(2) Regulations 1, 2, 3 and 4 come into force on 1 April 2025.

(3) Regulations 5 and 6 come into force on 1 April 2026.

The Freedom of Information (Additional Public Authorities) Order 2010

2. In Part 1 (entries inserted with effect from 1 October 2010) of the Schedule to the Freedom of Information (Additional Public Authorities) Order 2010(**2**), omit "The Independent Remuneration Panel for Wales".

(**1**) 2024 asc 5.
(**2**) S.I. 2010/937, to which there are amendments not relevant to these Regulations.

Rheoliadau Etholiadau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

3. Yn Rheoliadau Etholiadau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019(**1**), hepgorer rheoliad 2 (diwygio Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011) a'r pennawd o'i flaen.

Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021

4. Yn Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021(**2**), hepgorer rheoliad 4 (Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol) a'r pennawd o'i flaen.

Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005

5.—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli)—

(a) hepgorer "ystyr "Mesur 2011" ("*the 2011 Measure*") yw Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011;";

(b) yn y lleoedd priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder—

"ystyr "y Comisiwn" ("*the Commission*") yw Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru;";

"ystyr "Deddf 2013" ("*the 2013 Act*") yw Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013;".

(3) Yn rheoliad 7(3) (talu lwfansau), yn lle "Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a ddyroddir o dan Ran 8 o Fesur 2011 (aelodau: taliadau a phensiynau)" rhodder "y Comisiwn a ddyroddir o dan Ran 5A o Ddeddf 2013 (swyddogaethau sy'n ymwneud â thaliadau a phensiynau)(**4**)".

The Elections (Wales) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2019

3. In the Elections (Wales) (Amendment) (EU Exit) Regulations 2019(**1**), omit regulation 2 (amendment to the Local Government (Wales) Measure 2011) and the heading before it.

The Corporate Joint Committees (General) (No. 2) (Wales) Regulations 2021

4. In the Corporate Joint Committees (General) (No. 2) (Wales) Regulations 2021(**2**), omit regulation 4 (the Independent Remuneration Panel for Wales) and the heading before it.

The Education (Admission Appeals Arrangements) (Wales) Regulations 2005

5.—(1) The Education (Admission Appeals Arrangements) (Wales) Regulations 2005(**3**) are amended as follows.

(2) In regulation 2(1) (interpretation)—

(a) omit ""the 2011 Measure" ("*Mesur 2011*") means the Local Government (Wales) Measure 2011;";

(b) in the appropriate places in alphabetical order insert—

""the 2013 Act" ("*Deddf 2013*") means the Democracy and Boundary Commission Cymru etc. Act 2013;";

""the Commission" ("*y Comisiwn*") means the Democracy and Boundary Commission Cymru;".

(3) In regulation 7(3) (payment of allowances), for "Independent Remuneration Panel for Wales issued under Part 8 of the 2011 Measure (members: payments and pensions)" substitute "Commission issued under Part 5A of the 2013 Act (functions relating to payments and pensions)(**4**)".

(**1**) O.S. 2019/115 (Cy. 29).
(**2**) O.S. 2021/1349 (Cy. 348).
(**3**) O.S. 2005/1398 (Cy. 112) a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/2535 (Cy. 250); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**4**) Mewnosodwyd Rhan 5A yn Neddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 (dccc 4) gan adran 57 o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (dsc 5). Cafodd adran 57 o Ddeddf 2024 ei dwyn i rym ar 1 Ebrill 2025 gan erthygl 3 o O.S. 2024/1337 (Cy. 226).

(**1**) S.I. 2019/115 (W. 29).
(**2**) S.I. 2021/1349 (W. 348).
(**3**) S.I. 2005/1398 (W. 112), amended by S.I. 2013/2535 (W. 250); there are other amending instruments but none is relevant to these Regulations.
(**4**) Part 5A was inserted into the Democracy and Boundary Commission Cymru etc. Act 2013 (anaw 4) by section 57 of the Elections and Elected Bodies (Wales) Act 2024 (asc 5). Section 57 of the 2024 Act was brought into force on 1 April 2025 by article 3 of S.I. 2024/1337 (W. 226).

Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008

6. Ym mharagraff 12(2)(b)(iv) (buddiannau sy'n rhagfarnu) o'r cod enghreifftiol yn yr Atodlen i Orchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008(**1**), ar ôl "Rhan 8 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011," mewnosoder "Rhan 5A o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013,".

The Local Authorities (Model Code of Conduct) (Wales) Order 2008

6. In paragraph 12(2)(b)(iv) (prejudicial interests) of the model code in the Schedule to the Local Authorities (Model Code of Conduct) (Wales) Order 2008(**1**), after "Part 8 of the Local Government (Wales) Measure 2011," insert "Part 5A of the Democracy and Boundary Commission Cymru etc. Act 2013,".

Jayne Bryant

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru
6 Mawrth 2025

Cabinet Secretary for Housing and Local Government, one of the Welsh Ministers
6 March 2025

©ⓑHawlfraint y Goron 2025

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2025

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) O.S. 2008/788 (Cy. 82) a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/84 (Cy. 38); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**1**) S.I. 2008/788 (W. 82), amended by S.I. 2016/84 (W. 38); there are other amending instruments but none is relevant to these Regulations.

ISBN 978-0-348-39667-6



£5.78